PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD IAU, 11 MAI 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Owen Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Gibson, Green, Lancaster, Proctor a/ac Wood |

84 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorwyr De'Ath, Lloyd-Jones a Parry a Shifa Shazad

85 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y buddiannau canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Cynghorydd Gibson | Eitem 5 | Rhagfarnus | Mae ffrind agos ac aelod o'r teulu yn cael eu his-gontractio gan ddarparwr trafnidiaeth ysgol |
| Y Cynghorydd Derbyshire | Eitem 5 | Personol | Mae ei wyrion yn defnyddio trafnidiaeth ysgol |

86 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

87 : CYNLLUN RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd drafft a fydd yn llywio argymhellion y Cabinet i'r Cyngor ar gyfer gwariant Refeniw a Chyfalaf yn 2024/25 a'r cynllun ariannol tymor canolig. Nod y ddogfen oedd diffinio dull strategol hirdymor o ymdrin â phriffyrdd a chyllid cynnal a chadw asedau eraill.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, pan gafodd y Cynllun Buddsoddi mewn Asedau Priffyrdd (CBAP) presennol ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol a'i fabwysiadu wedyn gan y Cyngor yn 2016, y cytunwyd ar gyflwr cyson o ariannu i gynnal adnoddau yn eu cyflwr presennol, gan sicrhau nad oedd dirywiad na gwelliant chwaith yn yr asedau priffyrdd. Ystyriwyd mai hwn fyddai'r ateb economaidd hirdymor gorau ar y pryd. Nododd yr adroddiad efallai na fydd hyn yn bosibl yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Defnyddir y CBAP i ffurfioli strategaethau ar gyfer buddsoddi mewn grwpiau asedau Priffyrdd, i ddiffinio safonau gwasanaeth, i wella sut mae'r asedau Priffyrdd yn cael eu rheoli ac i sicrhau bod y gwasanaeth mwyaf effeithiol yn cael ei ddarparu o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Bwriedir i'r CBAP hefyd gyd-fynd â dyheadau'r blaenoriaethau corfforaethol Cryfach, Tecach, Gwyrddach (CTG) a chefnogi'r strategaeth Caerdydd Un Blaned. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y CBAP, lle bo'n bosibl, yn datblygu ymateb carbon isel i gynnal a chadw'r Priffyrdd, yn gwneud y mwyaf o integreiddio dulliau cynaliadwy ar y priffyrdd ac yn ystyried y Priffyrdd o fewn cyd-destun ehangach creu ardal gyhoeddus o ansawdd uchel, yn seiliedig ar greu lleoedd, gwyrddu, hygyrchedd, ac ansawdd dylunio.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod asedau'r ddinas yn cael eu harolygu gan ddefnyddio dull diogelwch yn gyntaf, sy'n seiliedig ar risg. Fodd bynnag, yng nghanol dinas Prifddinas Cymru efallai y bydd angen arolygu'n fwy ardaloedd o statws sy'n defnyddio deunyddiau gwell er mwyn cynnal a chadw'r ardaloedd hynny gan y bydd y deunyddiau hyn yn fwy costus i'w hatgyweirio/disodli. Ailgyfrifwyd y costau sydd eu hangen i gynnal 'cyflwr cyson' cymeradwy gwaith cynnal a chadw yn 2016 i ystyried y cynnydd mewn costau byw sy'n effeithio ar y DU ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi Tabl 1 yn yr adroddiad a oedd yn dangos cost adeiladu/trin lonydd cerbydau a throedffyrdd, fesul metr sgwâr, rhwng 2020/21 a 2022/23 ac yn dangos cynnydd cyfartalog o tua 56%:

Croesawodd y Cadeirydd Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, Matt Wakelam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Strydlun a Gary Brown, Pennaeth Seilwaith a Gweithrediadau Priffyrdd i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y swyddogion i roi cyflwyniad.

Dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon. Cafodd yr Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, ceisio eglurhad neu wneud sylwadau am y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

- Nododd yr Aelodau CBAP 2012-15 a ddosbarthwyd gyda'r adroddiad a'r cynllun drafft presennol. Gofynnodd yr Aelodau pa gynllun oedd ar waith yn ystod y blynyddoedd yn y canol. Dywedodd y swyddogion fod strategaeth fuddsoddi wedi'i chyflwyno yn 2016 gyda'r bwriad o lywio CBAP diwygiedig. Fodd bynnag, arweiniodd nifer o heriau at oedi cyn pandemig Covid. Ers pandemig Covid mae newidiadau sylweddol yn gysylltiedig â chost wedi achosi oedi ychwanegol.

- Roedd yr Aelodau am gael eglurhad o ran a fyddai'r cynllun presennol a'r lefel bresennol o gyllid yn arwain at 'ddirywiad wedi'i reoli' yn yr ased priffyrdd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai nod y CBAP yw nodi, os bydd y lefelau buddsoddi presennol yn cael eu cynnal, y bydd y gwasanaeth wedyn yn rheoli dirywiad yn yr ased priffyrdd. Mae'r CBAP hefyd yn galluogi'r awdurdod i ddatblygu strategaeth fuddsoddi yn y tymor hwy a fydd yn arwain at sefyllfa cyflwr cyson.

- Gofynnodd yr Aelodau faint o'r costau uwch oedd dros dro a faint y gallant leihau dros amser neu faint ohonynt oedd yn gynnydd strwythurol mwy parhaol. Roedd yr Aelodau hefyd am ganfod a allai cynnydd dros dro mewn costau ostwng yn y blynyddoedd i ddod ac, felly, gwella'r sefyllfa. Nododd y swyddogion fod trafodaethau wedi eu cynnal gyda chontractwyr i sicrhau bod costau'n cael eu cynnal ar brisiau presennol dan y fframwaith tendro cystadleuol. Mae fframwaith newydd wedi'i gyflwyno lle mae prisiau wedi

cynyddu a bydd yr awdurdod yn gweithio dan y fframwaith hwnnw hyd y gellir rhagweld. Roedd y swyddogion o'r farn y byddai unrhyw ostyngiad mewn costau yn ymylol.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw cost ychwanegol cyflwr gwael arwynebau ffyrdd wedi'i achosi gan gerbydau trydan trymach a goblygiadau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd wedi'u cynnwys yn y CBAP drafft. Dywedodd y swyddogion mai ychydig iawn o effaith y mae ceir yn ei chael ar arwynebau ffyrdd a'i bod yn annhebygol y bydd cerbydau trydan yn cael llawer o effaith ar gyflwr ffyrdd. Roedd y CBAP drafft yn cwmpasu'r 3 blynedd nesaf ac felly nid yw codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yn cael ei ystyried ar gyfer yr iteriad hwn. Bydd CBAPau yn y dyfodol yn ystyried codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd, newid ymddygiadol a newidiadau eraill yn y defnydd o ffyrdd.

- Gofynnodd yr Aelodau am gymhariaeth rhwng cost atgyweirio ceudyllau sylfaenol ac ateb atgyweirio ceudyllau mwy parhaol. Dywedodd y swyddogion fod angen sicrhau bod ceudwll yn ddiogel o fewn amserlen benodol ar ôl iddo gael ei adrodd. Mae heriau i wneud atgyweiriadau adweithiol o'r fath a all effeithio ar hirhoedledd, fel y tywydd. Byddai pob atgyweiriad yn costio rhwng £5 a £10. Mae adfer parhaol yn costio rhwng £50 a £100 y ceudwll, yn dibynnu ar ofynion rheoli traffig.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd yr awdurdod yn gallu gosod safonau uwch ar gyfer ffyrdd a adeiladir mewn datblygiadau newydd fel bod y gost barhaus o atgyweirio'r arwynebau hynny yn is. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod pob ffordd a phont yn cael ei chynllunio i fanyleb a nodir yn y Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd. Mae'r fanyleb yn dibynnu ar swm y traffig a mathau'r cerbydau y maent yn eu cario. Cyflwynir dyluniadau ffyrdd newydd i'r awdurdod gan ddatblygwyr ac fe'u dilysir gan swyddogion dan gytundebau Adran 278 neu Adran 38. Mae safonau eraill, fel goleuadau stryd, hefyd yn cael eu gosod dan y cytundebau hynny cyn eu mabwysiadu. Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw le i fynd y tu hwnt i'r fanyleb a nodir yn y llawlyfr. Dywedodd y swyddogion fod lle i gynyddu'r fanyleb ond bod datblygwyr hefyd yn gyfrifol am ddarparu cyfleusterau cymunedol eraill fel ysgolion, parciau a chyfleusterau lleol eraill o fewn y gyllideb a bod angen dod o hyd i gydbwysedd er mwyn cyflawni'r dyheadau hynny.

- Gofynnwyd i'r swyddogion egluro beth a olygir gan waith wynebu ffyrdd 'carbon is' a sut mae'n wahanol i waith wynebu ffyrdd confensiynol. Dywedodd y swyddogion fod gwaith wynebu ffyrdd carbon is diweddar wedi defnyddio isgynnyrch o broses cynhyrchu dur lleol fel agreg. Cafodd y cynnyrch ei storio'n lleol sy'n lleihau effaith cludo'r deunydd. Cafodd wyneb y ffordd a gloddiwyd ei ailgylchu gan y contractwr. Mae gwaith wynebu ffyrdd confensiynol yn defnyddio agreg 'crai' sef carreg wedi'i chloddio sy'n cael ei chludo o bob cwr o'r DU a gwaredir unrhyw ddeunyddiau sydd wedi'u cloddio. Cafodd gwaith gosod llinellau gwyn ei wneud â llaw gan ddefnyddio dull gosod oer yn hytrach na'r dull gosod poeth gan ddefnyddio peiriannau mawr. Roedd y swyddogion o'r farn bod y treial lleihau carbon ar yr A470, a oedd hefyd yn cynnwys gwrthbwyso carbon

dan brosiect Coed Caerdydd, wedi bod yn llwyddiannus iawn. Wrth ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, dywedodd y swyddogion fod y gwaith wynebu ffyrdd carbon is yn dod yn fwy prif ffrwd a bod disgwyl i'r costau ostwng o ganlyniad. Mae contractwyr bellach yn cyflwyno cynigion ar gyfer cynlluniau fel rhan o'u hymchwil a'u gwaith datblygu i 'wyrddu' eu diwydiant.

- Gofynnodd yr Aelodau a ystyrir peryglon posibl fel gorchuddion draeniau a malurion yn cronni wrth gynllunio llwybrau beicio newydd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod dyluniad gorchuddion draeniau wedi gwella dros amser i fod yn well i feicwyr. Mae'r rhwydwaith yn cael ei lanhau'n rheolaidd ac mae cerbydau newydd ychwanegol wedi'u caffael i sicrhau bod beicffyrdd yn ddiogel i'w defnyddio.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw datblygwyr yn cyfrannu unrhyw beth tuag at gynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd yn yr ardaloedd lle mae datblygiadau yn digwydd. Dywedodd y swyddogion fod y rhwydwaith ffyrdd wedi'i gynllunio i hwyluso defnydd gan bawb gan gynnwys datblygiadau newydd. Ni chodir tâl ar ddatblygwyr am ddefnyddio'r briffordd. Fodd bynnag, cynhelir trafodaethau ynghylch y llwybrau mwyaf priodol ar gyfer cerbydau danfon, ac ati. Mae cerbydau trwm hefyd yn cael eu hailgyfeirio pan fydd cyfyngiadau pwysau ar waith. Mae datblygwyr yn rhoi cyllid ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd sydd newydd eu mabwysiadu am gyfnod cyfyngedig.

- Gofynnodd Aelod a oedd y swyddogion yn ymwybodol o dreial a oedd yn digwydd yng ngorllewin Cymru yn defnyddio gwastraff hylendid (cewynnau) fel rhan o'u gwaith wynebu ffyrdd. Nid oedd y swyddogion yn ymwybodol o'r treial. Fodd bynnag, mae treialon wedi'u cynnal yng Nghaerdydd yn defnyddio cynnyrch gwastraff o'r gwaith troi gwastraff yn ynni a fyddai'n cynnwys yr holl wastraff wedi'i losgi gan gynnwys cewynnau.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw adrodd am geudyllau a methiannau eraill ar y rhwydwaith ffyrdd yn gyfrifoldeb i Gynghorwyr a thrigolion. Dywedodd y swyddogion fod cyfundrefnau arolygu ar waith sy'n cwmpasu'r rhwydwaith cyfan. Cynhelir archwiliadau, yn dibynnu ar y defnydd o'r ffordd. Caiff pob ffordd ei harchwilio o fewn 12 mis o leiaf, ond mae rhai ffyrdd yn cael eu harchwilio'n amlach. Ymatebir hefyd i adroddiadau am fethiannau gan Gynghorwyr a thrigolion. Mae'r un adroddiadau archwilio yn cael eu cwblhau dan yr amgylchiadau hynny.

- Cadarnhaodd y swyddogion fod atgyweiriadau dan gontract a mewnol yn cael eu gwneud. Mae ymatebion brys yn fewnol yn gyffredinol. Mae contractwyr yn gwneud gwaith mwy parhaol wedi'i raglennu. Mae'r holl waith yn cael ei archwilio a sicrheir bod ei ansawdd i'r safonau gofynnol. Mae angen i waith a wneir gan ddarparwyr cyfleustodau gydymffurfio â'r un gyfundrefn sicrhau ansawdd.

- Gofynnodd Aelod sut cymharodd y CBAP drafft ag iteriadau blaenorol o ran y pwysau ariannol i sicrhau cyflwr cyson. Dywedodd y swyddogion fod lefelau buddsoddi blaenorol ar lefel i sicrhau cyflwr cyson. Derbyniwyd fod y CBAP drafft yn wynebu pwysau ychwanegol sylweddol o ran cost. Roedd y swyddogion o'r farn nad oedd y sefyllfa ariannol cyn 2010 yn gymaradwy gan fod gan yr awdurdod weithlu mewnol llawer mwy a chan fod y mathau o atgyweiriadau i lonydd cerbydau yn wahanol bryd hynny. Mae technoleg newydd mewn goleuadau stryd hefyd wedi'i chyflwyno sy'n golygu bod goleuadau stryd yn cael eu rheoli'n ganolog ac yn fwy effeithlon.

- Roedd yr Aelodau o'r farn mai canfyddiad y cyhoedd yw bod ffyrdd yn derbyn y rhan fwyaf o'r buddsoddi tra bod palmentydd yn cael eu hesgeuluso. Gofynnodd yr Aelodau a oedd hyn yn nodweddiad teg. Dywedodd y swyddogion fod ffyrdd yn derbyn mwy o fuddsoddi na'r droedffordd ond bod buddsoddi'n gysylltiedig â dirywiad a defnydd. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi, pan fydd cynlluniau arwynebu ffyrdd mawr yn cael eu cynnal, y byddai'n costio 3 gwaith y cyllid i arwynebu arwynebedd cyfatebol llwybr troed.

- Gofynnodd yr Aelodau a ystyriwyd cyflwyno trefn ddraenio a chlirio mwy rhagweithiol, o ystyried pa mor aml y mae digwyddiadau tywydd eithafol yn cynyddu sy'n arwain at lifogydd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod dros 190,000 o gylïau yn y ddinas ac ar hyn o bryd mae'r ffocws ar ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Mae ymarfer yn cael ei gynnal i ganfod y buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl rhwng gwaith clirio gylïau wedi'i raglennu ac adweithiol. Roedd y swyddogion hefyd o'r farn nad oedd systemau draenio hŷn wedi'u dylunio i reoli'r digwyddiadau tywydd eithafol sy'n dod yn fwy aml. Fodd bynnag, yn y dyfodol, defnyddir systemau draenio cynaliadwy, sydd wedi'u dylunio i ddal cyfeintiau o ddŵr yn ddiogel nes y gallant wasgaru'r dŵr yn naturiol.

- Gofynnwyd i'r swyddogion wneud sylwadau ar y risg o hawliadau yswiriant i'r awdurdod o ganlyniad i ddiffygion ffyrdd a throedffyrdd. Dywedodd y swyddogion fod nifer uchel o hawliadau yn cael eu derbyn, y mwyafrif ohonynt yn hawliadau cerbydau. Mae cost hawliadau cerbydau'n is na hawliadau anafiadau personol.

PENDERFYNWYD – Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

## 88 : CAFFAEL TRAFNIDIAETH TEITHWYR

*Datganodd y Cynghorydd Derbyshire fuddiant personol yn yr eitem hon gan fod ei wyrion yn ddefnyddwyr trafnidiaeth ysgol.*

*Datganodd y Cynghorydd Gibson fuddiant rhagfarnus yn yr eitem hon gan fod ffrind agos ac aelod o'r teulu yn cael eu his-gontractio gan ddarparwr trafnidiaeth ysgol. Gadawodd y Cynghorydd Gibson y cyfarfod ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth.*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y fframwaith Caffael Trafnidiaeth Teithwyr arfaethedig sy'n amlinellu'r broses ar gyfer tendro a chaffael ystod o ofynion trafnidiaeth ar gyfer y Cyngor gan gynnwys anghenion trafnidiaeth ysgol. Mae'r fframwaith hefyd yn ceisio cytundeb i gynyddu gwerth yr awdurdod dirprwyedig mewn perthynas â chontractau a ddyrennir drwy'r System Gaffael Ddeinamig o £49m i £139m rhwng 2018 a 2029 (cyfnod y contract) oherwydd nifer o bwysau a nodwyd.

Croesawodd y Cadeirydd Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, Steve Gerrard, Arweinydd y Tîm Gweithrediadau Rhwydwaith a Jason Dixon, Rheolwr Rhwydwaith a Datblygu Trafnidiaeth i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y swyddogion i roi cyflwyniad.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiwn ar y papurau cyfrinachol yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o’r rhan hon o’r cyfarfod wrth i’r Pwyllgor drafod gwybodaeth sy’n gyfrinachol ac wedi’i heithrio o’i chyhoeddi fel y nodir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o’r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

Dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon. Cafodd yr Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, ceisio eglurhad neu wneud sylwadau am y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

- Gofynnwyd i’r swyddogion roi sylwadau ar oedran, allyriadau a chyflwr cyffredinol y cerbydau a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth ysgol. Dywedodd y swyddogion fod safonau ansawdd gwahanol yn dibynnu ar ddosbarthiadau'r cerbydau. Mae angen i gwmnïau sy’n tendro fodloni'r safonau hynny er mwyn ymuno â'r rhestr gymeradwy o gontractwyr. Nodir terfynau oedran cerbydau ac mae trafodaethau'n parhau gyda chontractwyr gyda'r bwriad o wella eu cerbydau i safonau allyriadau Ewro 6. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod llai o gontractwyr yn gwneud cais am dendrau gan fod y cerbydau sydd ar gael ganddynt yn cael eu defnyddio. Ar ben hynny, mae rhai gwasanaethau bysus ysgol yn cael eu darparu gan gwmnïau bysus cyhoeddus a bydd y rhain y tu allan i'r fframwaith caffael. Bydd gwasanaethau sy'n cael eu caffael trwy'r fframwaith yn derbyn sgôr uwch yn ystod y broses dendro ar gyfer cerbydau o ansawdd gwell.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y swyddogion yn hyderus y gellir darparu'r gwasanaethau yn y dyfodol o ystyried y nifer cyfyngedig o gontractwyr sy'n tendro ar gyfer contractau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y sefyllfa'n hynod heriol yng Nghaerdydd ac ar draws Cymru. Mae angen ystyried effaith y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau, lle gallai cynghorau ledled Cymru fod yn dymuno disodli gwasanaethau bysus cyhoeddus gyda gwasanaethau dan gontract, hefyd. Mae gan gwmnïau bysus nifer cyfyngedig o yrwyr ar gael ac maent yn cael trafferth talu am eu gwasanaethau presennol. Mae'r pryderon hyn wedi'u

codi gyda Llywodraeth Cymru.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd yr ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu yn y ddinas yn cael eu hadeiladu ar lwybrau bysus sefydledig. Dywedodd y swyddogion fod ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda chydweithwyr ym meysydd Cynllunio ac Addysg i sicrhau bod gan ysgolion gysylltiadau trafnidiaeth da, gan gynnwys gwasanaethau bysus a rhwydweithiau cerdded a beicio.

- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai costau'r contractau'n lleihau yn y blynyddoedd nesaf pe bai pwysau cyllidebol fel chwyddiant a chostau tanwydd yn gostwng. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod tendro yn cael ei wneud i ddarparu cost gyson. Er enghraifft, contractau 3 blynedd yw contractau anghenion dysgu ychwanegol er mwyn darparu sefydlogrwydd i'r disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys opsiynau ar gyfer cynnydd chwyddiant. Fodd bynnag, mae'n anodd lleihau pris contract. Oherwydd natur ddeinamig y gwasanaeth, mae angen i'r contractwyr a'r Cyngor roi 1 mis o rybudd i ddod â'r contract i ben a gall y contractwyr dynnu'n ôl o'r contract.

PENDERFYNWYD – Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

89 : BUSNES Y PWYLLGOR

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor ers 2022.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

90 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys.

91 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 15 Mehefin 2023 yn amodol ar gytundeb yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.30 pm